Llinell Amser English
Hafan Pori Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd



# JAMES, THOMAS (1827 - 1899), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** Thomas James
**Dyddiad geni:** 1827
**Dyddiad marw:** 1899
**Rhiant:** Sarah James
**Rhiant:** Thomas James
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 18 Gorffennaf 1827, yn Llansawel, Sir Gaerfyrddin, mab Thomas a Sarah James. Symudodd gyda'i dad i Ddowlais yn 1842, ymaelododd yn Hermon, a dechreuodd bregethu yno. Addysgwyd ef yn ysgol Ffrwd-fâl, Trefeca, a Phrifysgol Glasgow - lle y graddiodd yn M.A. Ordeiniwyd ef yn sasiwn Castellnewydd Emlyn, 1861, ac ymsefydlodd yn Llanelli, lle bu'n cadw ysgol ramadeg am dymor. Bugeiliodd yr eglwys yng Nghapel Newydd ar hyd ei oes.

Ysgrifennodd lawer i'r *Drysorfa* a'r *Cylchgrawn*; bu'n cydolygu 'r olaf gydag Edward Matthews ac 'Islwyn.' Yr oedd yn bregethwr grymus a goleuedig, ac yn arweinydd craff i'w gyfundeb. Ef, yn anad neb, a sefydlodd y fugeiliaeth eglwysig ymhlith Methodistiaid Sir Gaerfyrddin. Bu farw yn Llanelli, 27 Medi 1899. Cyhoeddwyd nifer o'i bregethau yn ei *Gyfrol Goffa*, 1901.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Y Drysorfa*, 1900, 117-20

James Morris, *Efengylwyr Seion sef hanes nodweddion a dywediadau amryw o hen bregethwyr y Methodistiaid Calfinaidd yn sir Gaerfyrddin* (Dolgellau 1905), 140 et. seq

J. E. Davies, *Cyfrol goffa y Parchedig Thomas James, M.A., Llanelli yn cynwys byr-fywgraffiad, nifer o bregethau, cyngor, a chof-daflen* (Dolgellau 1901), 9-53

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 103053532

Wikidata: Q20734469

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Roberts, G. M., (1953). JAMES, THOMAS (1827 - 1899), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JAME-THO-1827

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu